Mae S4C yn falch o gyhoeddi ein bod yn chwilio am beilotau comedi. Yn dilyn peilot llwyddiannus yn 20/21, rydym yn edrych am syniadau deng munud o hyd i gael blas ar leisiau a thalent cyffrous, newydd yng Nghymru.

Bydd y cynnwys wedi ei gynhyrchu ar gyfer cyhoeddi ar-lein yn bennaf ar lwyfannau Clic, YouTube a Facebook. Mae posibilrwydd o ddarlledu'r cynnwys ar y teledu hefyd. Mae'n bwysig bod ystyriaethau megis hawliau a gofynion technegol yn cael eu hadlewyrchu wrth gynnig y syniad.

Gwahoddir syniadau comedi o bob arddull ar gyfer cynulleidfa eang o bob oedran, ond yn arbennig cynnwys comedi amrywiol gyda phwyslais ar leisiau benywaidd yn ogystal â lleisiau newydd.

Gan y bydd y cynnwys wedi'i anelu at gynulleidfa eang o bob oed, rydym yn croesawu syniadau am gomedi beiddgar yn ogystal â chomedi sydd o natur ysgafnach.

Rydym yn chwilio yn bennaf am ddarn o gynnwys deng munud o hyd bydd yn ein cyflwyno ni i fyd y cymeriadau. Os bydd y peilot yn llwyddiannus bydd yna bosibilrwydd o gomisiynu mwy o benodau i greu cyfres midform o benodau 10-15 munud o hyd.

Wrth gynnig syniadau dylid gallu dangos yn glir:

- At bwy mae'r cynnwys wedi ei anelu?
- Amlinelliad o'r math o gynnwys a thriniaeth weledol gan nodi'r dalent sydd ynghlwm â'r syniad.
- Amserlen saethu a chyhoeddi ddrafft.

- Os yw'r cynnwys yn dibynnu ar dalent unigolyn newydd, bydd angen dolen i wylio fideo blasu.
- Amlinelliad syml o'r broses gynhyrchu gan gynnwys hawliau a chydymffurfiaeth, llif gwaith a chyfleu.

Mae'r gyllideb gynhyrchu yn ddibynnol ar y cynnwys, ond rydym yn edrych ar gomisiynu ar dariff bras o £500.00 - £1,000.00 y funud. Mae angen ystyried beth sydd yn bosib o fewn y gyllideb, yn arbennig felly o ran cast a lleoliad.

Sut i gyflwyno syniad?

Os oes gennych ddiddordeb, anfonwch eich syniad fel dogfen Word neu PDF hyd at uchafswm o 3 tudalen gan gynnwys 1 tudalen o sgript enghreifftiol, a dim mwy na 5mb at tendrl@s4c.cymru erbyn 18:00 Dydd Mawrth, 7fed o Fedi, 2021. Gallwch gyflwyno mwy nag un syniad, ond bydd angen i chi eu hafnon ar wahân. Byddwn yn cadarnhau derbyn y syniad drwy ebost.

Mae gwefan gynhyrchu S4C http://www.s4c.cymru/cy/cynhyrchu/ yn cynnig gwybodaeth ddefnyddiol gan gynnwys gwybodaeth dechnegol, gytundebol a chyfleu os oes cwestiwn am y prosesau cynhyrchu gennych.

Mae'n fwriad gan Elen Rhys, Comisiynydd Cynnwys Adloniant, Rhodri ap Dyfrig, Comisiynydd Cynnwys Ar-lein a Guto Rhun, Comisiynydd Cynorthwyol Ar-lein i ddewis rhestr fer ganol mis Medi 2021 - cedwir yr hawl i addasu'r amserlen a hysbysir ein bwriad drwy e-bost. Os byddwch yn llwyddiannus bydd angen i'r syniad gael ei roi ar system gomisiynu S4C – Cwmwl. Ni ddylid gwneud hyn cyn cael y gwahoddiad.

Edrychwn ymlaen yn fawr at dderbyn eich cynigion.

Cedwir yr hawl i beidio â chomisiynu unrhyw un o'r cynigion a ddaw i law.

S4C is pleased to announce a commissioning round looking for comedy pilots. Following a successful pilot scheme in 20/21, we are looking for ideas ten minutes in length that show us a taste of new and exciting talent in Wales

The content will be produced primarily for publishing online on Clic, YouTube and Facebook. There is a possibility for linear broadcast as well. It is important that considerations regarding rights and technical specifications are reflected when submitting ideas.

We invite comedy ideas of every style for a broad spectrum of audience of every age. We are especially looking for diverse comedy with an emphasis on female voices as well as new voices.

As it is aimed at a wide audience of every age, we invite ideas for bold, thought provoking ideas as well as comedy of a lighter nature.

We are looking primarily for a piece of content ten minutes in length that introduces us to the world of the characters. If the pilot is successful there is a possibility of further order of more episodes to create a midform series of 10-15 minute episodes.

When proposing the new ideas, you should be able to clearly show:

- To whom is the content targeted
- An outline of the sort of content and the visual treatment noting the talent attached to the idea

- Shooting and draft publication schedule
- If the content depends on individual new talent, a link to watch a taster video
- A simple outline of the production process that includes rights and compliance, workflow and delivery

The production budget is subject to the content and we're looking to commission on an approximate tariff of £500 - £1000 per minute. Considerations must be taken as to what is achievable within this budget, especially considering cast and location.

How to submit an idea?

If you're interested, please send your ideas as a Word document or PDF of no more than 3 pages per idea including 1 page of an example sgript to tendr@s4c.cymru by 18:00 Tuesday, September 7th 2021. We will acknowledge all applications by email.

S4C's production website offers useful information regarding delivery, contracts and technical queries should you have any questions regarding the production process.

Elen Rhys Entertainment Commissioner, Rhodri ap Dyfrig On-line Commissioner and Guto Rhun On-line Assistant Commissioner intend to make a decision and notify you of a greenlight by mid September. If successful you will be invited to submit the idea to the S4C Cwmwl commissioning system. This should not be used to submit your initial pitch.

We look forward to receiving your ideas.

We reserve the right not to commission any one of the proposals received.